



# Adroddiad Arolygu ar gyfer

Prestwood - 2

Y Felinheli

**Dyddiad Cyhoeddi**

**14 Mai 2019**

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.**

*Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)*

*Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Y darparwr gwasanaeth ar gyfer 2 Ffordd Siabod yw Prestwood Care Homes Ltd. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i roi gofal personol i ddau oedolyn rhwng 18 a 64 oed ag anableddau dysgu a/neu anghenion iechyd meddwl (gweithredol). Mae'r cartref wedi'i leoli yn y Marina yn y Felinheli. Mae gan y gwasanaeth unigolyn cyfrifol dynodedig, ac mae'r rheolwr wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Caiff y bobl sy'n byw yn y cartref eu cynnwys wrth ddewis y math o weithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt a chânt eu hannog i fod yn annibynnol. Maent yn gallu mynegi eu barn a'u safbwyntiau ac maent yn gallu cael gafael ar wasanaethau eirioli annibynnol. Caiff anghenion gofal a chymorth y bobl eu nodi mewn cynlluniau cymorth unigol ac asesiadau risg ac maent yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r tîm o staff yn deall dewisiadau personol y bobl. Mae'r amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da, ac mae gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Caiff gwiriadau cyn cyflogi eu cwblhau, mae'r staff yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae angen cwblhau adroddiad ar ansawdd y gofal.

### 2. Gwelliannau

Mae'r gwasanaeth wedi cael budd o nifer o welliannau o ran yr amgylchedd ac agweddau ar arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae hyn yn cynnwys y ffaith bod y gwasanaeth wedi bodloni gofynion cyfreithiol mewn perthynas ag achosion o ddiffyg cydymffurfio yn y gorffennol. Trafodir y gwelliannau hyn yn yr adroddiad.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi ein gofynion a'n hargymhellion er mwyn gwella'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys:

Mae angen gwelliant mewn perthynas â'r canlynol er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002 yn llawn:

- Ansawdd y Gofal

Gwnaed y gwelliannau canlynol er mwyn gwella'r gwasanaeth ymhellach:

- Defnydd priodol o 'dynnu coes' ('*banter*') fel dull cyfathrebu, a'i fonitro.
- Adolygu asesiadau risg.
- Modiwlau hyfforddiant e-ddysgu yn cael eu cwblhau gan y staff.
- Goruchwylio ac arfarnu staff.
- Monitro lefelau staffio.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Gall y bobl sy'n byw yn y cartref ddewis y gweithgareddau sydd orau ganddynt a chânt eu hannog i fod yn annibynnol. Mae'r staff yn deall anghenion y bobl, yn eu cynnwys mewn sgysiau ac yn defnyddio dulliau cymorth ymddygiad cadarnhaol. Gall y bobl fynegi eu barn a'u pryderon. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth cyson yn Gymraeg.

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n bwysig iddynt. Roedd hysbysiad diffyg cydymffurfio'r arolygiad diwethaf yn nodi nad oedd cyfleoedd a gweithgareddau ar gyfer person a oedd yn byw yn y cartref wedi cael eu diweddarau yn unol â'r hyn roedd y rheolwr, y staff a'r person wedi'i ddweud. Nodwyd hefyd nad oedd ffeil gweithgareddau'r person wedi cael ei diweddarau. Gwelsom fod gwelliannau wedi'u gwneud. Mewn trafodaethau â pherson sy'n byw yn y cartref, nodwyd ei fod yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau o'i ddewis. Dywedodd fod ganddo amserlen gyfredol ar gyfer y rhaglen weithgareddau wythnosol a'i fod yn *"updating it"* gyda'r staff. Nododd y person ei fod yn mwynhau cwblhau'r gweithgareddau a'u bod o ddiddordeb penodol a phersonol iddo. Dywedodd, *"I can do any activity I want"* a *"can make my own choices about where I go"*. Gwnaethom edrych ar amserlen weithgareddau'r person a gwelsom ei bod yn cynnwys gweithgareddau amrywiol sy'n annog ac yn hybu iechyd corfforol ac emosiynol, iechyd meddwl a llesiant y person. Dywedodd y person sy'n byw yn y cartref wrthym ei fod yn cael ei annog gan y staff i fod yn annibynnol, a nododd fod y staff yn ei helpu i gwblhau tasgau sgiliau byw beunyddiol, i fwyta'n iach ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Roedd y person yn cydnabod y gallai lefel ei gymhelliant amrywio o ddydd i ddydd a bod y staff yn parchu ei ddewisiadau a'i benderfyniadau. Dangosodd cofnodion dyddiol fod y person yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned ac yn rhannu defnydd o gar y gwasanaeth â phobl sy'n byw mewn cartrefi eraill gerllaw sy'n eiddo i'w cwmni. Disgrifiodd y person sy'n byw yn y cartref y trefniant fel un *"frustrating"* ond nododd hefyd nad oedd ganddo unrhyw bryderon (*"no concerns"*) ynglŷn â'r sefyllfa oherwydd gallai wrthod rhannu'r car pe bai gofyn iddo wneud hynny. Nododd fod y staff yn parchu ei benderfyniad ac nad oeddent yn rhoi pwysau arno i newid ei feddwl. Caiff y bobl eu hannog i fod yn iach ac yn annibynnol, ac maent mor egniol ag y maent yn dewis bod.

Caiff y bobl sy'n byw yn y cartref eu cefnogi gan staff sy'n eu cynnwys mewn sgysiau ac yn deall eu hanghenion. Mynegwyd pryder wrth Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) mewn perthynas â'r defnydd o iaith anwedus ac amhriodol â pherson sy'n byw yn y cartref a bod y person wedi ymateb i hyn, yn ôl y sôn. Hefyd, gwnaeth AGC atgyfeiriad diogelu yn sgil y wybodaeth hon. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr a'r rheolwr ardal a wnaeth gydnabod bod hyn yn amhriodol ac yn amhroffesiynol. Gwnaeth y rheolwr gydnabod ei fod yn ymwybodol bod y staff yn *"tynnu coes"* y person (*"banter"*), ond nid oedd wedi clywed iaith amhriodol yn cael ei defnyddio. Dywedodd wrthym y byddai ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r mater a chawsom gadarnhad bod y gwasanaeth wedi mynd i'r afael â hyn cyn i'r adroddiad hwn gael ei gwblhau. Gwnaethom hefyd drafod y mater â'r person cofrestredig a ddywedodd y byddai'n ymchwilio ymhellach i'r mater. Gwelsom fod monitro defnydd y staff

o 'dynnu coes' fel dull o gyfathrebu â'r bobl sy'n byw yn y cartref mewn modd priodol, proffesiynol a pharchus yn faes i'w wella. Yn ystod ein harsylwadau, gwelsom y staff yn defnyddio technegau cymorth ymddygiad cadarnhaol a hiwmor mewn modd priodol wrth gyfathrebu â'r person. Hefyd, gwelsom ni nhw'n cynnwys y person mewn sgysiau, yn ei drin â pharch a charedigrwydd ac yn dangos empathi pan oedd y person yn anhapus. Roeddent yn siarad â'r person mewn modd digynnwrf ac amyneddgar ac roeddent yn gyfeillgar ac yn onest tuag ato. Disgrifiad y person o'r tîm o staff oedd "*very good, very kind*", gan ychwanegu "*[they] respect me and I respect them*". Dywedodd hefyd nad oedd ganddo unrhyw bryderon ("*no concerns*") ynglŷn â'r staff, gan ddweud wrthym, "*staff know my likes and dislikes*". Hefyd, nododd y person y gallai roi gwybod i'r rheolwr neu therapydd y cwmni pe na bai'n cyd-dynnu'n dda â'r staff ac y byddai'r gwasanaeth yn mynd i'r afael â'r mater. Caiff y bobl sy'n byw yn y cartref eu trin â pharch ac maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff ond mae angen ystyried y defnydd o gyfathrebu priodol a'i fonitro'n agos.

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn gallu mynegi eu barn a'u safbwyntiau. Roedd hysbysiad diffyg cydymffurfio'r arolygiad diwethaf yn tynnu sylw at broblemau mewn perthynas â'r ffaith nad oedd datganiad o ddiben y gwasanaeth na'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer yr Ombwdsmon yng Nghymru. Roedd hefyd yn nodi nad oedd y datganiad o ddiben yn cynnwys trefniadau ar gyfer delio â chwynion ac y dylai'r weithdrefn gwyno gael ei gwneud yn gliriach. Gwelsom fod gwelliannau wedi'u gwneud. Roedd manylion yr Ombwdsmon ar gael ac roedd y weithdrefn gwyno wedi cael ei chynnwys yn y datganiad o ddiben a ddiweddarwyd yn ddiweddar. Dywedodd person sy'n byw yn y cartref wrthym nad oedd ganddo unrhyw bryderon ar hyn o bryd a'i fod yn gwybod â phwy i siarad pe bai am wneud cwyn. Nododd ei fod yn cael sgysiau rheolaidd â'r rheolwr a'i fod wedi mynegi ei farn a'i bryderon mewn perthynas â staffio, y defnydd o gar y gwasanaeth ac elfennau o'r gwaith o gynllunio ei ofal iddo o'r blaen. Yr hyn a ddywedodd y person wrthym am y rheolwr oedd "*doesn't ignore me when I complain*" a "*gives me a straight answer*". Hefyd, dywedodd wrthym ei fod yn gwybod y gallai gael cymorth eiriolaeth annibynnol a'i fod wedi defnyddio'r gwasanaeth o'r blaen. Roedd dogfen 'compliments, complaint and comments' y gwasanaeth hefyd ar gael er mwyn i bobl fynegi eu barn, ac roedd wedi'i hysgrifennu mewn fformat hawdd ei ddarllen. Roedd polisïau chwythu'r chwiban, diogelu a chwynion y gwasanaeth wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymwybodol o'r prosesau. Hefyd, dywedodd y staff nad oeddent wedi bod yn dyst i unrhyw bryderon ac y byddent yn rhoi gwybod i'r rheolwr neu'r uwch reolwyr am unrhyw bryderon. Mae prosesau ar waith i alluogi'r bobl sy'n byw yn y cartref i fynegi eu pryderon, ac maent yn gallu defnyddio gwasanaethau eirioli annibynnol.

Caiff hunaniaeth a diwylliant unigol y bobl eu parchu. Mae chwech o blith y 15 aelod o staff a gyflogir gan y gwasanaeth ar hyn o bryd yn gallu siarad Cymraeg. Gellir gofyn i unrhyw un o'r staff weithio yn y cartref er mwyn helpu i lenwi sifftiau. Dros ddeuddydd yr arolygiad, gwelsom un aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio. Nid Cymraeg oedd mamiaith y person sy'n byw yn y cartref. Dywedodd y rheolwr wrthym y byddai'n ystyried unrhyw gais am aelod o staff sy'n siarad Cymraeg i gefnogi'r bobl sy'n byw yn y cartref, pe bai cais o'r fath yn cael ei wneud. Roedd y rota staff yn dangos nad oedd aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael yn y cartref bob dydd, ac roedd y rheolwr yn cydnabod hyn. Hefyd, dywedodd y rheolwr wrthym fod datganiad o ddiben y gwasanaeth ar gael yn Gymraeg ac y byddai modd cyfieithu dogfennau fel cynlluniau cymorth unigol ac asesiadau risg y bobl yn ôl y galw. Mae'r bobl yn cael cyfleoedd i fynegi eu hunain yn eu dewis iaith, ac mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth cyson yn Gymraeg.

## 2. Gofal a Chymorth

### Crynodeb

Caiff dewisiadau personol y bobl mewn perthynas â'r gofal a'r cymorth a roddir iddynt eu cynnwys yn eu cynlluniau cymorth unigol, a chaiff y bobl eu cynnwys yn y broses o gynllunio gofal. Mae amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol allanol ar gael i'r bobl, yn ogystal â gwasanaethau mewnol arbenigol y cwmni. Mae angen gwneud gwelliannau o ran sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu monitro a'u diweddarau'n rheolaidd pan fo angen, a'u bod yn cynnwys gwybodaeth benodol.

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac mae eu dewisiadau a'u dymuniadau'n cael eu parchu. Gwelsom ffeil gofal un o'r bobl, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am ei anghenion gofal a chymorth ar ffurf cynlluniau cymorth unigol ac asesiadau risg. Gwelsom fod y cynlluniau cymorth unigol yn seiliedig ar annog y bobl i fod yn annibynnol, cwblhau gweithgareddau y mae'r person yn eu dewis ac yn eu hoffi, cydnabod risgiau, rhoi arweiniad i'r staff a chefnogi llesiant emosiynol a seicolegol y person. Dywedodd person sy'n byw yn y cartref wrthym ei fod yn cael ei gynnwys yn y gwaith o gynllunio'i ofal, a nododd ei fod yn ymwybodol o gynnwys ei gynlluniau cymorth unigol. Dywedodd wrthym ei fod wedi darllen y cynlluniau cymorth unigol a'i fod wedi penderfynu eu llofnodi oherwydd, "*this is my choice*". Hefyd, dywedodd y person wrthym ei fod yn trafod materion mewn "*honest way*" â'r staff a'r rheolwr a'i fod yn fodlon ar y ffordd roedd gofal a chymorth yn cael eu darparu iddo. Mewn trafodaethau â pherson sy'n byw yn y cartref a'r staff, tynnwyd sylw at y cynlluniau cymorth unigol a'r asesiadau risg a oedd yn rhoi disgrifiad cyfredol a chywir o'r gofal a'r cymorth a ddarperir. Hefyd, gwelsom y staff yn rhoi cymorth yn unol â ffeil gofal y person a'r wybodaeth roedd y person wedi'i rhannu. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth yn y ffordd y maent yn dymuno eu cael.

Caiff anghenion gofal a chymorth y bobl eu hymgorffori yn eu cynlluniau cymorth unigol a'u hasesiadau risg. Roedd hysbysiad diffyg cydymffurfio'r arolygiad diwethaf yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd gofal a sylw dyledus wedi cael eu rhoi i gynllun gofal, asesiadau risg a chynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol. Roedd yn nodi nad oedd dogfennau'n ddigon manwl, nad oeddent wedi cael eu hadolygu, nad oeddent yn cynnwys tystiolaeth bod y person neu bobl eraill sy'n gysylltiedig â'u gofal yn cael eu cynnwys a bod dogfennau asesu risg yn cynnwys gwybodaeth anghyson. Hefyd, nid oedd ffeil un o'r bobl yn dangos gwybodaeth am Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ac nid oedd y siartiau pwysau yn glir. Gwelsom fod gwelliannau wedi'u gwneud gan fod ffeil gofal un o'r bobl yn dangos bod ei gynlluniau cymorth unigol a'i asesiadau risg wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar. Hefyd, gwelsom eu bod yn cynnwys y ffactorau cysylltiedig â risg mwyaf diweddar a bod gwybodaeth hanesyddol wedi cael ei chrynhai er mwyn ei gwneud yn haws i'r staff ei darllen a'i deall. Roedd gwybodaeth am statws cyfredol Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a phwysau'r person wedi cael eu cofnodi. Hefyd, gwelsom ddogfen wedi'i llofnodi gan y staff i ddangos eu bod wedi darllen y wybodaeth yn y ffeiliau gofal. Er gwaethaf y gwelliannau a oedd wedi'u gwneud, gwelsom un enghraifft lle nad oedd gwybodaeth am risg sylweddol wedi cael ei hymgorffori mewn asesiad risg. Gwnaethom drafod canlyniad negyddol posibl hyn â'r rheolwr a aeth i'r afael â'r mater drwy gynnwys y wybodaeth yn ffeil gofal y person. Ni welsom fod hyn wedi cael effaith negyddol ar lesiant y

person nac ar y gofal a'r cymorth a ddarperir iddo. Er bod y newid angenrheidiol wedi'i wneud, gwelsom fod angen gwelliant o ran sicrhau bod asesiadau risg yn fanwl ac yn cael eu monitro'n rheolaidd a'u diweddarau pan fo angen er mwyn helpu'r staff i nodi ffactorau risg posibl a'u lleihau cymaint â phosibl. Caiff anghenion gofal a chymorth a risgiau'r bobl eu nodi, ond mae angen bod yn fwy gwylidwrus wrth gwblhau, monitro a diweddarau ffactorau risg posibl mewn asesiadau.

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn gallu defnyddio gwasanaethau proffesiynol. Gwelsom dystiolaeth ysgrifenedig yn ffeil gofal y person a oedd yn dangos ei fod mewn cysylltiad ag amrywiaeth o wasanaethau arbenigol er mwyn cefnogi ei lesiant a'i ddatblygiad emosiynol, seicolegol, corfforol a chymdeithasol. Lle bo angen, gwelsom ei fod yn cael cyswllt rheolaidd â Seicolegydd y cwmni ac y gallai gael gafael ar y Therapydd Cymorth Ymddygiad yn ogystal â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol amrywiol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i ymyriadau mewn perthynas â llesiant emosiynol a seicolegol y bobl a'u bod yn cael arweiniad. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd adolygu ffurfiol pan fo angen. Hefyd, gwelsom fod y gwasanaeth wedi cysylltu â'r gwasanaeth comisiynu a bod y wybodaeth wedi cael ei chofnodi yn ffeil y person. Dywedodd person sy'n byw yn y cartref wrthym ei fod yn cael ei gynnwys yn ei adolygiadau a bod y gwasanaeth yn gwrando ar ei farn ac yn ei hystyried. Nododd hefyd ei fod yn gwerthfawrogi'r cymorth roedd yn ei gael gan Seicolegydd y cwmni. Dywedodd y person wrthym ei fod yn mwynhau'r sesiynau. Nododd fod y cymorth ychwanegol "*has helped me change*" a "*feel I've got a weight lifted off my shoulder*" yn dilyn y sesiynau. Deallir a rhagwelir anghenion iechyd unigol y bobl am eu bod yn gallu cael cyngor, gofal a chymorth gan wasanaethau proffesiynol.

### 3. Yr Amgylchedd

#### Crynodeb

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd glân sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac sydd wedi cael ei adnewyddu. Mae digon o le i ddiwallu anghenion y bobl a chânt eu hannog i ddewis y ffordd y caiff eu hystafelloedd eu haddurno. Gwnaed gwelliannau ers yr arolygiad diwethaf o ran gweithdrefnau diogelwch tân ac mae archwiliadau iechyd a diogelwch perthnasol wedi cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol.

#### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd glân a diogel sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Roedd y cartref yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod wrth i ni gyrraedd y cartref, a gofynnodd y staff am gael gweld ein manylion adnabod. Gofynnwyd i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr yn unol â'r gweithdrefnau diogelwch tân cyn crwydro o amgylch yr adeilad. Roedd pob ardal a welsom yn lân, yn daclus, ac yn cynnwys digon o le i ddiwallu anghenion y bobl. Yn y cartref roedd dwy ystafell wely, cegin, ystafell ymolchi, lolfa/ystafell fwyta, balconi y tu allan a swyddfa ar wahân lle'r oedd rheolwr y gwasanaeth yn gweithio.

Gwnaethom edrych ar ystafell wely un person, a gwelsom ei bod yn cynnwys ei eitemau personol. Dywedodd wrthym iddo ddewis lliwiau ac addurniadau ei ystafell, gan ddefnyddio'r gair "*nice*" i ddisgrifio'r ystafell a dweud "*I'm happy living here*". Roedd y lolfa/ystafell fwyta, y cegin a'r ystafell ymolchi yn lân, yn daclus ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Gwelsom y staff yn glanhau'r cegin a'r ystafell ymolchi'n rheolaidd yn ystod ein hymweliadau. Dywedodd y rheolwr a'r staff wrthym fod adran cynnal a chadw'r cwmni yn cael gwybod am unrhyw faterion yn ymwneud â chynnal a chadw er mwyn mynd i'r afael â nhw. Er gwaethaf hyn, ni welsom fod cynllun cynnal a chadw'n cael ei ddefnyddio i ddogfennu'n ffurfiol y gwaith yr oedd angen ei gwblhau na chofnodi'r newidiadau cadarnhaol a wnaed yn yr amgylchedd. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd gweld pryd yr oedd y gwaith wedi cael ei nodi, ei gyfeirio a'i gwblhau. Cawsom drafodaeth am hyn â'r rheolwr, a dywedwyd wrthym cyn cwblhau'r adroddiad hwn fod llyfr cynnal a chadw bellach yn cael ei ddefnyddio.

Roedd hysbysiad diffyg cydymffurfio'r arolygiad diwethaf yn tynnu sylw at broblemau yn ymwneud â'r ffaith nad oedd cynlluniau personol y bobl ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng (PEEP) yn cynnwys digon o fanylion am allu'r bobl i adael y cartref yn ddiogel, tystiolaeth nad oedd ymarferion tân yn cael eu llofnodi a'r ffaith nad oedd asesiad risg mewn perthynas â defnyddio balconi wedi cael ei gwblhau. Gwelsom fod gwelliannau wedi'u gwneud. Gwelsom fod y cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng wedi cael eu hadolygu dywedodd person sy'n byw yn y cartref wrthym fod y staff wedi trafod diogelwch tân a'r gweithdrefnau ar gyfer gwagio'r adeilad gydag ef. Hefyd, disgrifiodd y camau y byddai angen iddo eu cymryd pe bai tân. Gwelsom hefyd fod profion wedi cael eu cwblhau ar y larymau tân, y diffoddwyr tân a'r goleuadau argyfwng. Gwelsom fod y gwasanaeth wedi mynd i'r afael â meysydd i'w gwella a argymhellwyd mewn perthynas â gosod carped ar y grisiau a symud sofffa o'r balconi. Hefyd, dywedodd y rheolwr wrthym am gynlluniau i osod carped newydd yn y cyntedd. Gwnaethom hefyd edrych ar sampl o gofnodion iechyd a diogelwch mewn perthynas â phrofi dyfeisiau trydanol a'r prawf trydanol bob pum mlynedd, a gwelsom eu bod wedi'u cwblhau o fewn yr



amser dynodedig. Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac yn eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl a sicrhau ymdeimlad o lesiant.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cwblhau ac mae'r staff yn cael eu sefydlu'n ffurfiol. Mae'r staff yn cael amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi sy'n eu helpu i gyflawni eu rolau, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â darparu lefel gyson o oruchwyliaeth, monitro'r lefelau staffio, lleoli staff a chwblhau adroddiad ar ansawdd y gofal.

### Ein canfyddiadau

Caiff y staff eu fetio ac maent yn cwblhau proses sefydlu ffurfiol. Roedd hysbysiad diffyg cydymffurfio'r arolygiad diwethaf yn tynnu sylw at broblemau mewn perthynas â'r ffaith bod ffeiliau'r staff yn anhrefnus ac nad oeddent yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol yn unol â'r rheoliadau. Roedd hefyd yn tynnu sylw at broblemau ynglŷn â'r ffordd roedd manylion staff sy'n symud rhwng gwasanaethau yn cael ei chofnodi a'i darparu. Gwelsom fod gwelliant wedi'i wneud. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff a'r broses o gyflogi a sefydlu'r staff. Dywedodd y rheolwr a'r rheolwr ardal wrthym fod prif ffeiliau'r staff yn cael eu storio'n ddiogel gydag adran Adnoddau Dynol y cwmni. Roedd modd i ni gael gafael ar y wybodaeth ar ddiwrnod yr arolygiad a gwelsom fod ffeiliau'r staff yn cynnwys ffurflen gais, hanes cyflogaeth a geirdaon gan gyflogwyr blaenorol. Roedd dyddiadau cyflogaeth flaenorol y staff, ynghyd â'u rhesymau dros adael, hefyd wedi'u cofnodi, ac roedd gan y cwmni ei adran recriwtio ei hun a oedd yn trafod darpar aelodau newydd o staff â rheolwr y cartref. Gwelsom hefyd fod gwiriadau manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cwblhau, a'u bod yn gyfredol. Roedd rhaglen sefydlu ffurfiol ar waith ar gyfer staff newydd a oedd yn seiliedig ar ganllawiau Gofal Cymdeithasol Cymru ac roedd disgwyl iddynt gwblhau cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol os nad oeddent yn meddu ar gymhwyster o'r fath yn barod. Roedd staff newydd hefyd yn cwblhau sifftiau cysgodi gyda staff mwy profiadol ac roedd disgwyl iddynt ddarllen polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Dywedodd y rheolwr wrthym nad oedd cyfyngiad amser ar hyn. Dywedodd dau aelod o'r staff wrthym eu bod wedi mwynhau eu proses sefydlu, gan ei disgrifio fel "*informative*" a "*useful*". Caiff gwiriadau cyn cyflogi eu cwblhau a chaiff y bobl sy'n byw yn y cartref eu cefnogi gan aelodau o'r staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant sefydlu ffurfiol ac maent yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae'r staff yn cael amrywiaeth o hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl. Roedd hysbysiad diffyg cydymffurfio'r arolygiad diwethaf yn tynnu sylw at broblemau mewn perthynas â hyfforddiant y staff. Roedd yn nodi nad oedd cofnod hyfforddiant staff llawn ar gael er mwyn cadarnhau p'un a oedd pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y cartref wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol i'w galluogi i ddiwallu anghenion y bobl a ph'un a oedd yn gyfredol. Gwelsom fod gwelliant wedi'i wneud. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn dangos bod y staff yn manteisio ar gyfleoedd hyfforddi rheolaidd a bod mwy na hanner y tîm o staff naill ai wedi ennill cymwysterau ym maes gofal ar lefel 2 neu uwch neu'n gweithio tuag at ennill cymwysterau o'r fath. Dywedodd y staff wrthym fod yr hyfforddiant yn cynnwys cwblhau modiwlau e-ddysgu a sesiynau "*hands on*" a gynhelir gan ddarparwyr allanol. Gwelsom hefyd fod y staff yn gallu defnyddio canolfan hyfforddi fewnol y cwmni ac yn gallu manteisio ar hyfforddiant pwrpasol a oedd yn benodol i anghenion gofal a chymorth y bobl. Roedd y rheolwr yn goruchwyllo'r hyfforddiant a gwblhawyd gan y staff, a gwelsom fod y staff wedi cwblhau amryw bynciau gorfodol. Dywedodd y staff wrthym fod y rheolwr yn rhoi gwybod

iddynt pan fo angen iddynt gwblhau hyfforddiant neu gael hyfforddiant gloywi. Gwelsom hefyd fod y rheolwr wedi rhagarchebu sesiynau hyfforddi ar gyfer y staff â darparwyr allanol. Dywedodd pob aelod o'r staff y cawsom sgwrs ag ef ei fod yn cael hyfforddiant rheolaidd a oedd yn berthnasol i'w rôl. Roedd ymatebion y staff i ansawdd yr hyfforddiant yn amrywio, ac yn cynnwys "okay", "generally good" a "poor". Roedd cofnod hyfforddiant y staff yn dangos bod un aelod o'r staff wedi cwblhau 12 modiwl mewn un diwrnod a bod aelod arall o'r staff wedi cwblhau naw. Gyda'i gilydd, roedd wyth aelod arall o'r staff wedi cwblhau rhwng tri ac wyth modiwl mewn diwrnod. Gwnaethom drafod hyn â'r tîm rheoli a'r person cofrestredig a ddywedodd y byddent yn adolygu'r sefyllfa. Ni welsom fod hyn wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl. Gwelsom fod angen ystyried ac adolygu pa mor ymarferol ydoedd i staff gwblhau nifer o fodiwlau hyfforddi e-ddysgu mewn un diwrnod, a nodwyd hyn gennym fel maes i'w wella. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael eu cefnogi gan staff sy'n cael hyfforddiant amrywiol a rheolaidd.

Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac mae cyswllt rheolaidd rhyngddynt a'r rheolwr. Roedd hysbysiad diffyg cydymffurfio'r arolygiad diwethaf yn tynnu sylw at broblemau ynglŷn â gallu'r rheolwr i flaenoriaethu ei lwyth gwaith a diffyg dirprwyo rhyngddo ac uwch aelodau o'r staff. Gwelsom fod gwelliannau wedi'u gwneud. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn dirprwyo tasgau i uwch aelodau o'r staff a'i fod wedi cael cymorth rheoli perfformiad ychwanegol gan yr uwch reolwyr. Dywedodd wrthym ei fod yn "grateful" am y cymorth roedd yn ei gael a'i fod wedi'i helpu i gyflawni ei rôl. Gwnaeth pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef ganmol y cymorth roedd yn ei gael gan y rheolwr. Gwnaethant siarad amdano mewn ffordd gadarnhaol gan ddweud bod y rheolwr ar gael i drafod unrhyw waith neu faterion personol. Gwelsom y rheolwr yn rhyngweithio â'r staff mewn modd cyfeillgar a chadarnhaol, a gwelsom y staff yn trin y rheolwr â pharch. Gwnaeth yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw ddefnyddio geiriau fel "approachable" a "lovely" i ddisgrifio'r rheolwr. Hefyd, dywedodd y staff fod y rheolwr yn "listens to me", "resolves issues" ac "eisiau'r gorau i'r bobl". Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal, a'u bod yn cael cyfleoedd i drafod materion yn ymwneud â gwaith. Roedd y cofnodion goruchwyllo ac arfarnu staff yn dangos bod y staff yn cael eu goruchwyllo'n ffurfiol ac yn anffurfiol, ond nid oedd hyn bob amser yn digwydd yn chwarterol. Gwelsom hefyd nad oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau ei arfarniad blynyddol. Ni welsom fod hyn wedi cael effaith negyddol ar lesiant y staff, a chafodd y materion hyn eu hystyried yn feysydd i'w gwella. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael budd o wasanaeth lle mae'r staff yn cael eu cefnogi'n gyson, ond mae angen gwneud gwelliannau er mwyn darparu lefel gyson o oruchwyliaeth staff ffurfiol ac arfarniad blynyddol.

Mae angen monitro lefelau staffio yn barhaus er mwyn sicrhau bod digon o staff ar ddyletswydd. Rhannwyd pryder ag AGC nad oedd person sy'n byw yn y cartref yn cael y cymorth a'r lefelau staffio gofynnol yn unol â'i gynlluniau gofal a'i asesiadau risg. Roedd y pryder hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod oriau cymorth staffio dros ben yn ddyledus i'r person. Cawsom olwg ar y rota staff a gwelsom fod y lefelau staffio ar ddiwrnodau'r arolygiad yn gyson â'r wybodaeth yn y rota staff ac â chytundebau'r gwasanaethau comisiynu. Roedd y rota staff yn dangos bod un aelod o'r staff yn gweithio yn ystod y nos a bod cymorth un i un yn cael ei ddarparu drwy'r dydd. Dywedodd y staff wrthym eu bod o'r farn bod y lefelau cymorth presennol yn ddigonol ac yn diwallu anghenion gofal a chymorth y bobl. Roedd y person sy'n byw yn y cartref yn cytuno â hyn. Dywedodd y staff a'r rheolwr wrthym hefyd fod gweithdrefnau ar waith i gysylltu â'r unigolyn ar alwad yn y gwasanaeth i ddarparu cymorth ar ffurf staff ychwanegol os oedd angen. Mewn trafodaeth â pherson sy'n

byw yn y cartref, tynnwyd sylw at adegau pan ofynnwyd i aelod penodedig o'r staff i roi cymorth mewn un arall o gartrefi'r cwmni gerllaw. Dywedodd fod newidiadau i'r staffio yn "*annoying*" ond hefyd nododd "*it doesn't stop me from doing things*". Nododd y person hefyd fod y rheolwr wedi rhoi gwybod iddo'n ddiweddar y gall ei gymorth amrywio am fod y gwasanaeth wrthi'n ceisio recriwtio staff newydd. Dywedodd ei fod yn "*happy*" â'r trefniant hwn, gan nodi nad oedd bob amser am gael cymorth dau i un dyddiol i fynd allan am ei fod yn hapus i aros gartref. Hefyd, dywedodd y person wrthym ei fod yn ymwybodol bod oriau staffio dros ben yn ddyledus iddo a'i fod yn hapus â'r trefniant hwn. Dywedodd wrthym ei fod yn defnyddio'r oriau dros ben i fynd ar wyliau gyda'r staff a'i fod yn gwybod faint o oriau a oedd yn ddyledus. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gweithio oriau ychwanegol yn rheolaidd, ar ben eu horiau dan gcontract, er mwyn sicrhau bod digon o staff ar bob sifft. Gwnaethant nodi mai eu dewis nhw oedd hyn, a'u bod yn ei wneud am eu bod yn mwynhau eu gwaith ac am sicrhau bod y bobl sy'n byw yn y cartref yn cael eu cefnogi. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod staff 'banc' yn aml yn cael eu defnyddio i lenwi sifftiau. Wrth drafod â'r rheolwr a'r rheolwr ardal daeth i'r amlwg eu bod yn ymwybodol o'r sefyllfa, a gwelsom dystiolaeth eu bod wrthi'n ceisio recriwtio aelod newydd o staff i swydd lawn-amser. Gwelsom hefyd fod aelodau newydd o staff wedi cael eu penodi, a gwelsom gyfweiliad yn cael ei gynnal yn ystod ein hymweliad. Ni welsom fod y mater wedi cael effaith negyddol ar lesiant y person. Mae AGC yn argymhell yn gryf y dylid parhau i fonitro'r lefelau staffio'n agos. Mae angen i'r person cofrestredig barhau i sicrhau bod niferoedd digonol o staff ar bob sifft, a bod y staff yn cael eu lleoli'n briodol er mwyn sicrhau bod y bobl sy'n byw yn y cartref yn cael lefel gyson o oruchwyliaeth a chymorth.

Nid oes gan y gwasanaeth adroddiad cyfredol ar ansawdd y gofal. Yn yr arolygiad diwethaf, tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd adroddiad ar ansawdd y gofal wedi cael ei gwblhau. Cyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio am nad oedd y prosesau monitro ansawdd yn helaeth ar y pryd. Gwelsom fod gwelliannau wedi'u gwneud gan fod y gwasanaeth wedi rhoi prosesau monitro ansawdd ar waith ac wedi sicrhau cydymffurfiaeth. Er gwaethaf hyn, ni allai'r rheolwr ddarparu adroddiadau i ni a gwblhawyd gan y person cofrestredig. Dywedodd wrthym nad oedd y person cofrestredig wedi ymweld â'r safle, a chadarnhawyd hyn gan y staff hefyd. Gwelsom fod ymweliadau monitro ansawdd wedi cael eu cwblhau a'u dirprwyo i aelodau eraill o'r cwmni. Gwelsom hefyd fod y rheolwr ardal yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd, a dywedodd wrthym ei fod yn cyflwyno ei ganfyddiadau i'r person cofrestredig ar lafar ac yn ysgrifenedig. Roedd ymweliadau ac adroddiadau mewn perthynas ag Adolygu Cydymffurfiaeth, Adolygu Trefniadau Monitro a Chynllun Gwella'r Gwasanaeth hefyd yn cael eu cwblhau gan reolwr cydymffurfiaeth y cwmni. Siaradodd y staff yn gadarnhaol am y rheolwr ardal, gan ddweud ei fod yn ymweld â'r safle'n rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth bod y rheolwr ac aelodau o'r tîm uwch-reolwyr yn cymryd camau cadarnhaol i wella'r gwasanaeth mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, hyfforddiant staff ac amgylchedd y cartref. Yn ystod yr arolygiad, cawsom ddogfen a oedd yn dyddio'n ôl i 2016, a oedd yn dangos bod ymatebion i holiaduron wedi'u cael gan bobl a oedd yn byw yn y cartref. Dywedodd y rheolwr a'r rheolwr ardal wrthym fod holiaduron pellach wedi cael eu dosbarthu a'u cwblhau ers hynny, ond nad oedd y wybodaeth wedi cael ei chasglu na'i chrynhai mewn adroddiad. Hefyd, dywedodd un o'r bobl sy'n byw yn y cartref a'r staff wrthym fod y rheolwr wedi gofyn iddynt yn ddiweddar am eu barn am y gwasanaeth. Er gwaethaf hyn, a'r ffaith bod prosesau monitro ansawdd ar waith, nid oedd adroddiad ar ansawdd y gofal wedi cael ei lunio. Roedd hyn yn golygu na allai'r gwasanaeth ddangos sut yr oedd yn cyflawni, yn adolygu nac yn myfyrio ar nodau a chanlyniadau cadarnhaol i'r bobl sy'n byw yn y cartref. Roedd y ffaith nad oedd adroddiad ar ansawdd y gofal wedi cael ei lunio hefyd yn golygu nad oedd unrhyw dystiolaeth o'r cynnydd

cadarnhaol a wnaed gan y tîm rheoli. Hefyd, ni welsom fod barn cynrychiolwyr y bobl na'r gwasanaethau comisiynu wedi cael ei chasglu fel rhan o'r broses o adolygu ansawdd y gofal. Mae AGC yn cydnabod bod gwelliannau wedi'u gwneud i'r broses monitro ansawdd, ond nid yw'r person cofrestredig yn bodloni'r gofynion rheoliadol yn llawn mewn perthynas â chwblhau adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal. Ni chyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio ffurfiol ar yr achlysur hwn gan na welsom fod y mater wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl na'r gofal a'r cymorth yr oeddent yn eu cael. Mae AGC yn disgwyl i'r person cofrestredig gymryd camau i fynd i'r afael â'r mater hwn cyn gynted â phosibl. Mae cais wedi'i wneud am gopi o'r adroddiad pan fydd wedi'i gwblhau, a bydd y sefyllfa'n cael ei monitro'n ofalus hyd nes y bodlonir y gofynion. Nid yw'r gwasanaeth wedi dangos yn llawn ei fod yn gosod safonau uchel mewn perthynas â chyflwyno tystiolaeth ffurfiol o welliant parhaus na dangos sut mae'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a gwella'r gwasanaeth mewn adroddiad ar ansawdd y gofal.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

<ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Rheoliad 25 (1) (a) a (b), (2) a (3).</b> <b>(1) Rhaid i'r person cofrestredig sefydlu a chynnal system ar gyfer (a) adolygu ansawdd y gofal a ddarperir yn y cartref gofal ar adegau priodol; a (b) ei wella.</b> <b>(2) Rhaid i'r person cofrestredig roi adroddiad i swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas ag unrhyw adolygiad a gynhelir ganddo at ddibenion paragraff (1), a threfnu bod copi o'r adroddiad ar gael i'r defnyddwyr gwasanaeth.</b> <b>(3) Rhaid i'r system y cyfeirir ati ym mharagraff (1) ddarparu ar gyfer ymgynghori â'r defnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.</b></li></ul>	<p>Gwelsom fod gwelliannau wedi cael eu gwneud i broses monitro ansawdd y gwasanaeth ers yr arolygiad diwethaf. Er gwaethaf hyn, nid oedd adroddiad ar ansawdd y gofal wedi cael ei gwblhau.</p> <p>Er nad oes cydymffurfiaeth lawn wedi cael ei chyflawni, nid oes hysbysiad diffyg cydymffurfio wedi cael ei gyflwyno ar yr achlysur hwn. Mae angen gwelliant er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn, ac mae AGC yn disgwyl i'r person cofrestredig gymryd camau i unioni'r mater.</p>
<ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Rheoliad 10 (1) Rhaid i'r darparydd cofrestredig a'r rheolwr cofrestredig, o roi sylw i faint y cartref gofal, y datganiad o ddiben, a nifer ac anghenion y defnyddwyr gwasanaeth, redeg y cartref gofal neu ei reoli (yn ôl fel y digwydd) â gofal, medrusrwydd a medr digonol.</b></li></ul>	<p>Gwelsom fod gwelliannau wedi cael eu gwneud ers yr arolygiad diwethaf.</p> <p>Sicrhawyd cydymffurfiaeth.</p>

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym wedi cynghori'r person cofrestredig yn gryf fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r canlynol er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn:

- Rheoliad 25 (1) (a), (2) a (3) mewn perthynas ag adolygu ansawdd y gofal.

Ni chyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio ffurfiol ar yr achlysur hwn gan na welsom fod y mater wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl na'r gofal a'r cymorth yr oeddent yn eu cael. Mae AGC yn disgwyl i'r person cofrestredig gymryd camau i unioni'r mater.

Dyma'r meysydd i'w gwella a argymhellir er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol pellach i bobl:

- Mae angen bod yn fwy gwiliadwrus wrth fonitro'r staff yn 'tynnu coes' fel ffordd o gyfathrebu â'r bobl er mwyn sicrhau y gwneir hynny mewn modd priodol, proffesiynol a pharchus.
- Rydym yn argymhell yn gryf y dylai asesiadau risg fod yn fanwl, cael eu monitro'n gyson a'u diweddarau pan fo angen er mwyn helpu'r staff i nodi ffactorau risg posibl a'u lleihau cymaint â phosibl.
- Adolygu pa mor ymarferol ydyw i staff gwblhau nifer o fodiwlau hyfforddi e-ddysgu ar yr un diwrnod, ynghyd â manteision hynny.
- Dylai pob aelod o'r staff gael ei oruchwylio'n ffurfiol bob chwarter, a chwblhau arfarniad blynyddol sy'n rhoi adborth iddo ar ei berfformiad ac yn nodi meysydd lle mae angen cyfleoedd hyfforddi a datblygu, er mwyn ei helpu i gyflawni ei rôl.
- Rydym yn argymhell yn gryf y dylid parhau i fonitro'r lefelau staffio'n agos er mwyn sicrhau bod niferoedd digonol o staff ar bob sifft, a bod y staff yn cael eu lleoli'n briodol er mwyn sicrhau bod y bobl sy'n byw yn y cartref yn cael lefel gyson o oruchwyliaeth a chymorth.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Cynhaliwyd arolygiad arferol dirybudd gennym ni, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), yn y cartref ar 26 Chwefror 2019 rhwng 09:20am a 18:30pm ac ar 27 Chwefror 2019 rhwng 08:30am a 19:25pm. Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Gwnaethom siarad ag un person sy'n byw yn y cartref, y rheolwr, y rheolwr ardal ac un aelod o'r staff gofal.
- Gwelsom un ystafell wely, ystafell ymolchi ac ardal gymunedol y lolfa, yr ystafell fwyta a'r gegin.
- Edrychwyd ar amrywiaeth eang o gofnodion. Gwnaethom ganolbwyntio ar gofnodion gofal un person, ffeiliau tri aelod o'r staff, dogfennau sicrhau ansawdd, cofnodion un cyfarfod staff, cofnodion meddyginiaeth, hyfforddiant staff, goruchwyliaeth staff, y datganiad o ddiben, y polisïau cwyno, chwythu'r chwiban a diogelu, a detholiad o gofnodion iechyd a diogelwch yn ymwneud â diogelwch tân ac eitemau trydanol.
- Trafodwyd yr argymhellion â'r rheolwr ar ddiwrnodau'r arolygiad.
- Gwnaethom siarad â'r rheolwr ardal dros y ffôn ar 07 Mawrth 2019.
- Cawsom gyfarfod â'r person cofrestredig ar 11 Mawrth 2019 yn Swyddfa Arolygiaeth Gofal Cymru yng Nghyffordd Llandudno.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:

[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)



## Ynglŷn â'r gwasanaeth

<b>Y math o ofal a ddarperir</b>	<b>Cartref Gofal i Oedolion - Iau</b>
<b>Person Cofrestredig</b>	<b>Prestwood Residential Homes Ltd</b>
<b>Rheolwr</b>	<b>Mae'r unigolyn a benodwyd i reoli'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru</b>
<b>Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd</b>	<b>2</b>
<b>Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru</b>	<b>04 Gorffennaf 2018</b>
<b>Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn</b>	<b>26 Chwefror 2019 a 27 Chwefror 2019</b>
<b>Iaith weithredol y gwasanaeth</b>	<b>Saesneg</b>
<b>A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?</b>	<b>Mae hwn yn wasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog</b>
<b>Gwybodaeth Ychwanegol:</b>	

Nid oedd unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio â statws agored.